

Cynllun Iaith Gymraeg

paratowyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993

Paratowyd y Cynllun hwn yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a chafodd gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn unol ag adran 14(1) y Ddeddf ar 24 Mawrth 2003

Cynnwys

Rhagair	03
Cyflwyniad	03
Cynllunio a chyflwyno gwasanaethau	03
Polisiau a Gweithdrefnau Newydd	04
Safonau Gwasanaeth	04
Delio â'r Cyhoedd sy'n Siarad Cymraeg	04
Dulliau Eraill o Ddelio â'r Cyhoedd	05
Delwedd Gyhoeddus y Sefydliad	06
Gweithredu a Monitro'r Cynllun	07
Gwasanaethau a Ddarperir ar ran y Sefydliad gan Bartïon Eraill	08
Recriwtio	08
Staffio	08
Targedau ac Amserlen	08
Cwynion ac Awgrymiadau	08

Rhagair

1. Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol yn ymrwymedig i gyflawni ei rwymedigaethau o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg (1993).
2. Wrth hybu effeithiolrwydd clinigol a chost effeithiolrwydd yn y GIG ac wrth gynnal busnes gyda'r cyhoedd yng Nghymru a Lloegr, mae'r Sefydliad wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.
3. Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut y bydd y Sefydliad yn cyflawni'r egwyddor hon pan fydd yn delio â'r cyhoedd.

Cyflwyniad

4. Sefydlwyd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (y Sefydliad) ar 1af Ebrill 1999 fel Awdurdod Iechyd Arbennig ac mae'n rhan o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae'n darparu canllawiau awdurdodol, grymus a dibynadwy ynglŷn â'r "arfer gorau" presennol i'r GIG (cleifion, gweithwyr iechyd proffesiynol a'r cyhoedd) yng Nghymru a Lloegr. Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys technolegau iechyd unigol, gweithdrefnau ymyrraeth newydd a'r rheolaeth glinigol o gyflyrau arbennig.
5. Mae'r Sefydliad yn dosbarthu gwybodaeth gorfforaethol a chanlyniadau ei waith, ac yn ymateb i ymholiadau penodol. Mae'n darparu gwybodaeth am safonau a methodolegau sy'n cefnogi ac yn ategu cyfarwyddebau ansawdd eraill y GIG.
6. Mae'r Sefydliad yn cynnwys grwpiau o randdeiliaid ymhob agwedd ar ei waith.

Mae cleifion, gofawyr, diwydiannau gofal iechyd, y GIG a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i gyd yn rhanddeiliaid.

7. Dosberthir gwybodaeth i'r grwpiau hyn yn benodol: gweithwyr proffesiynol yn y GIG, gweithgynhyrchwyr technoleg, y cyhoedd a'r cyfryngau a grwpiau cleifion a gofawyr a'r rhai sy'n eu cynrychioli. Mae angen defnyddio terminoleg dechnegol a llyeg ar gyfer hyn.
8. Lleolir y Sefydliad sy'n cynnwys tua 60 o staff yn Llundain.

Cynllunio a chyflwyno gwasanaethau

9. Mae'r Sefydliad yn cydnabod yn llawn anghenion diwylliannol ac ieithyddol cleifion sy'n siarad Cymraeg yn y cyddestun o ddarparu canllawiau i'r GIG yng Nghymru a Lloegr.
10. Mae'r Sefydliad yn cydnabod y gall iaith (ac at ddibenion y Cynllun hwn, y Gymraeg) chwarae rhan bwysig yn y broses o ddarparu gofal iechyd yn llwyddiannus, a gall gael arwyddocâd meddygol a chlinigol y tu hwnt i ofal sensitif.
11. Cyfrifoldeb sefydliadau lleol y GIG yw gweithredu canllawiau NICE. Ymhob canllaw bydd y Sefydliad yn atgoffa'r cyrff hyn i ystyried a oes dimensiwn ieithyddol y dylid ei gymhwyso wrth eu gweithredu. Cyfrifoldeb cyrff unigol yw bodloni eu hunain bod eu dehongliad yn briodol. Gellir profi hyn hefyd drwy archwiliad allanol a systemau rheoli perfformiad (er enghraifft y Comisiwn Gwella Iechyd [Comisiwn Archwilio ac Arolygu Iechyd])

Polisiau a Gweithdrefnau Newydd

12. Bydd y Sefydliad yn sicrhau yr ystyrir yn llawn ddimensiwn ieithyddol polisiau newydd a mentrau eraill i sicrhau eu bod yn gyson â'r Cynllun ac nad ydynt yn ei danseilio.
13. Hysbysir aelodau o Fwrdd y Sefydliad a'r staff o'r Cynllun a chyfrifoldebau'r Sefydliad o dan y Ddeddf.
14. Bydd unrhyw gynigion i amrywio'r Cynllun yn cael eu trafod a'u cytuno gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn gyntaf. Ni fydd y Sefydliad yn diwygio'r Cynllun heb gytundeb y Bwrdd yn unol ag Adran 16 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg.

Safonau Gwasanaeth

15. Mae'r Sefydliad yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd a chleifion yn Gymraeg a Saesneg yn ôl eu dewis.
16. Wrth ddarparu ei ganllawiau i'r cyhoedd a'r GIG bydd y Sefydliad yn sicrhau y darperir dogfennau/deunydd ar gyfer y cyhoedd a chleifion yn ddwyieithog yng Nghymru a phan wneir cais amdanynt.
17. Mae'r Sefydliad yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth yr un mor safonol yn Gymraeg a Saesneg i'r rhai hynny sy'n gofyn amdano a nodir yr ymrwymiad hwn yn ein hadroddiad blynyddol ac ar ein gwefan.
18. Adolygir polisiau presennol y Sefydliad er mwyn sicrhau yr adlewyrchir pob agwedd ar y Cynllun ynddynt.

Delio â'r Cyhoedd sy'n Siarad Cymraeg

Gohebiaeth

19. Mae'r Sefydliad yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
20. Anfonir ateb yn Gymraeg i lythyrau a dderbyniwyd yn Gymraeg o fewn yr un terfynau amser â gohebiaeth Saesneg.
21. Bydd y Sefydliad yn darparu canllawiau ysgrifenedig i'w staff ynglŷn â sut i ddelio â gohebiaeth yn Gymraeg.

Cyfathrebu dros y Ffôn

22. Ni fydd y gallu gan y Sefydliad i ateb ymholiadau ffôn yn Gymraeg a chaiff galwyr y dewis o barhau yn Saesneg neu ohebu yn Gymraeg. Os penderfynant ohebu yn Gymraeg atebir eu gohebiaeth yn Gymraeg o fewn yr un terfynau amser safonol â gohebiaeth Saesneg.
23. Bydd y Sefydliad yn darparu canllawiau i'w holl staff ynglŷn â sut i ddelio â galwadau ffôn oddi wrth siaradwyr Cymraeg.

Cyfarfodydd cyhoeddus

24. Agorir pob cyfarfod cyhoeddus y Bwrdd a gynhelir yng Nghymru yn Gymraeg a bydd cyfieithydd ar gael i ateb cwestiynau yn Gymraeg. Cânt eu cyflwyno i aelodau'r cyhoedd.

25. Bydd y Sefydliad yn defnyddio bathodynau enwau dwyieithog ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd a gynhelir yng Nghymru.
26. Hysbysebwr pob cyfarfod Bwrdd cyhoeddus a gynhelir yng Nghymru yn ddwyieithog mewn papurau newydd Cymreig gan nodi'n glir y gellir siarad Cymraeg neu Saesneg ac y croesewir ymyriadau yn y naill iaith a'r llall. Fodd bynnag, ar gyfer papurau costus Saesneg ymddengys yr hysbyseb yn Saesneg yn unig.
27. Cyfieithir holl bapurau'r Bwrdd ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd a gynhelir yng Nghymru a byddant ar gael yn Gymraeg.
28. Bydd yr holl ddeunydd uchod a gyfieithir hefyd ar gael yn Gymraeg ar ein gwefan.
29. Bydd y Sefydliad yn sicrhau y dangosir y deunydd arddangos a gyfieithwyd ar gyfer stondin ein cynhadledd flynyddol yn Gymraeg ac y rhoddir yr un amlygrwydd iddo â'r deunydd Saesneg.
30. Ni fydd cyfleusterau cyfieithu ar gael ar gyfer ein cynhadledd gan y byddai'n anghymesur o gostus. Fodd bynnag, os cynhelir y gynhadledd yng Nghymru byddai'r adnoddau hyn ar gael yn yr un modd â chyfarfodydd y Bwrdd a gynhelir yng Nghymru.
31. Bydd y Sefydliad yn sicrhau bod y cyfieithwyr a ddefnyddir ar gyfer ei gyfarfodydd cyhoeddus ar restr cyfieithwyr Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Dulliau Eraill o Ddelio â'r Cyhoedd

Y Rhyngrwyd

32. Y prif ddull o ddsbarthu gwybodaeth yw gwefan y Sefydliad sy'n cynnwys gwahanol 'fynedfeydd' yn Gymraeg a Saesneg i weithwyr proffesiynol y GIG ac i'r cyhoedd a chleifion. Y tu ôl i'r mynedfeydd Cymraeg hyn bydd yr holl wybodaeth a gyfieithir fel arfer i'r Gymraeg ar gael. Cedwir y deunydd nas cyfieithir fel arfer yn uniaith Saesneg. Gall defnyddwyr chwilio am ddogfennau Cymraeg ar y wefan.
33. Darperir pob dogfen sydd i'w dosbarthu i'r cyhoedd a chleifion yn Gymraeg ar ein gwefan a chyfieithir y mynedfeydd i'r Gymraeg.
34. Bydd y Sefydliad yn darparu mynedfeydd ar gyfer gwahanol gategoriâu o ddefnyddwyr [gweithwyr proffesiynol, cleifion a'r cyhoedd]. Bydd ein hafan yn darparu pob un o'r rhain yn Gymraeg a Saesneg a fydd yn arwain at ran o'r wefan a fydd yn gymwys i'r grŵp arbennig hwnnw. Cyfieithir dogfennau lle y bo hynny'n briodol ac yn unol â'r Cynllun ond lle na fydd yn briodol fe'u dangosir yn uniaith Saesneg.
35. Bydd y wefan yn cynnwys cysylltiad â Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Delwedd Gyhoeddus y Sefydliad

Hunaniaeth gorfforaethol

36. Ni fydd y Sefydliad yn mabwysiadu hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog ar gyfer eu cyhoeddiadau Cymraeg nac yn defnyddio papur pennawd dwyieithog gan fod y Sefydliad yn rhwymedig i ganllawiau hunaniaeth gorfforaethol y GIG. Er hynny, bydd cyfieithiad Cymraeg o enw a chyfeiriad y Sefydliad ar ddogfennau a gyfieithwyd a chyfieithir y papur pennawd ar gyfer llythyrau a atebir yn Gymraeg.
37. Cynhyrchir fersiwn Cymraeg o ddalen ffacs y Sefydliad hefyd ar gyfer ateb yn Gymraeg drwy gyfrwng ffacs.

Cyhoeddiadau

38. Mae'r Sefydliad yn cyhoeddi ystod o ddogfennau i'r GIG yn ymwneud â chanllawiau ar wahanol dechnolegau a ddosberthir i weithwyr proffesiynol o fewn y GIG. Ni chyfieithir y papurau technegol hyn sy'n cynnwys termau meddygol. Er hynny, caiff fersiynau o ddogfennau technegol ar gyfer cleifion eu paratoi a'u dosbarthu yn Gymraeg a Saesneg ac yn uniaith Saesneg. Hefyd, cyhoeddir crynodeb o'r brif ddogfen yn Gymraeg a Saesneg. Lle na chyhoeddir fersiwn ar gyfer cleifion, y crynodeb yn unig a gaiff ei gyfieithu.
39. Bydd fersiynau dwyieithog o gyhoeddiadau corfforaethol eraill ar gael megis yr adroddiad blynyddol a thafleenni gwybodaeth.
40. Mae'r rhan helaeth o gyhoeddiadau'r Sefydliad ar gael yn rhad ac am ddim. Pan

godir tâl am gyhoeddiadau bydd y tâl am y fersiwn Cymraeg yr un faint â'r tâl am yr un Saesneg.

41. Bydd argraffwyr a dylunwyr yn defnyddio'r hunaniaeth gorfforaethol ar gyfer argraffu cyhoeddiadau dwyieithog.
42. Bydd fersiwn dwyieithog ar gael o'r holl ddeunydd corfforaethol a gyhoeddir ar gyfer y cyhoedd. Cyhoeddir y rhain ar yr un pryd ble bynnag y bydd hynny'n bosibl.
43. Bydd y Sefydliad yn sicrhau bod y cyfieithwyr a ddefnyddir ar gyfer ei gyhoeddiadau ar restrau Bwrdd yr Iaith Gymraeg a rhestrau Llywodraeth Cynulliad Cymru.
44. Bydd y Sefydliad yn cynhyrchu taflen gyhoeddusrwydd ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn esbonio darpariaethau allweddol y Cynllun. Cyhoeddir hon hefyd ar ein gwefan.
45. Bydd pob taflen ar gyfer cleifion yn cynnwys cyfeiriad yn Gymraeg yn nodi lle gellir cael copïau ychwanegol.

Datganiadau a hysbysiadau i'r wasg

46. Mae'r rhan fwyaf o ddatganiadau i'r wasg y Sefydliad o natur broffesiynol/technegol ac ni fyddant ar gael yn ddwyieithog. Er hynny, os bydd gweithgaredd y wasg yn cael ei gynllunio'n arbennig ar gyfer Cymru, cyhoeddir datganiadau i'r wasg yn ddwyieithog. Os bydd gan NICE reswm dros gyhoeddi hysbysiad i'r wasg, bydd y rhai a gyhoeddir ym mhapurau newydd Cymru yn ddwyieithog ac yn gydradd o ran amlygrwydd, fformat, maint ac ansawdd.

Gweithgareddau hysbysebu a chyhoeddusrwydd

47. Pan fydd NICE yn hysbysebu neu'n hyrwyddo cyfarfodydd i'r cyhoedd gwnaiff hynny yn Gymraeg a Saesneg. Bydd arwyddion dwyieithog neu ddeunydd cyhoeddusrwydd yn gydradd o ran fformat, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd. Pan gynhelir arolygon cyhoeddus gan NICE yng Nghymru byddant yn ddwyieithog.

Gweithredu a Monitro'r Cynllun

Monitro

48. Bydd y Bwrdd yn derbyn adroddiad cydymffurfiaeth a pherfformiad blynyddol a fydd hefyd yn adnabod unrhyw wendidau creiddiol yng ngweithrediad y Cynllun, gan baratoi cynllun gweithredu a fydd yn cynnwys amserlen i'w hateb. Bydd copi o'r adroddiad hwn yn cael ei anfon at Fwrdd yr Iaith Gymraeg.
49. Bydd y broses o weithredu'r Cynllun a'u safonau yn cael eu monitro.
50. Bydd y Sefydliad yn pennu gweithdrefnau ysgrifenedig lle y bo angen ar gyfer materion a fydd yn deillio o'r Cynllun.
51. Bydd y Sefydliad yn monitro'r Cynllun bob chwe mis.
52. Penodir aelod penodol o staff i fonitro'r broses o weithredu pob agwedd ar y Cynllun gan gynnwys mesur y cynnydd yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt, swm y gwaith sydd wedi deillio o'r Cynllun ac unrhyw awgrymiadau i wella/diwygio'r Cynllun.

53. Yn ogystal bydd monitro yn cynnwys yn benodol:
- Nifer y cyhoeddiadau dwyieithog a gynhyrchwyd;
 - Argaeledd fersiynau Cymraeg o ddeunydd gweinyddol megis papur pennawd;
 - Faint o ohebiaeth a galwadau ffôn a dderbynnir yn Gymraeg a'r amseroedd ymateb;
 - Polisiau a gweithdrefnau newydd a'u cydymffurfriad â'r Cynllun;
 - Cyrraedd y nod o ran gweithredu agweddau arbennig ar y Cynllun;
 - Y nifer a'r math o gwynion ynglŷn â'r Cynllun;
 - Y ddelwedd ddwyieithog mewn digwyddiadau cyhoeddus;
 - Nifer yr hysbysiadau dwyieithog yn y wasg;
 - Nifer y siaradwyr dwyieithog yng nghyfarfodydd y Sefydliad;
 - Nifer yr ymweliadau â fersiynau Cymraeg y dogfennau sydd ar ein gwefan;
 - Nifer y defnyddwyr sy'n mynd i mewn i wefan y Sefydliad drwy'r porth Cymraeg.
54. Bydd y Sefydliad yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'w uwch reolwyr a Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar gynnydd y Cynllun Iaith Gymraeg. Lle y bo angen, bydd hyn yn cynnwys rhesymau dros beidio â chyrraedd y safonau a nodir yn y Cynllun ac eglurhad o'r hyn rydym yn bwriadu ei wneud.

Gwasanaethau a Ddarperir ar ran y Sefydliad gan Bartïon Eraill

55. Bydd y Sefydliad yn sicrhau bod contractau sy'n delio â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ar ran y sefydliad yn gyson â themau'r Cynllun Iaith Gymraeg.

Recriwtio

56. Sefydliad bach yw'r Sefydliad, a phan fyddwn yn cyflogi staff ni fyddwn yn ymrwymedig i ddefnyddio iaith fel maen prawf er ein bod yn ymwybodol bod manteision i gael siaradwyr Cymraeg.
57. Fel rheol ni chyfieithir hysbysebion recriwtio i'r Gymraeg oni bai fod y swydd yn ymwneud yn benodol â'r cyhoedd yng Nghymru a lle y mae siarad Cymraeg yn angenrheidiol/dymunol.

Staffio

58. Caiff disgrifiadau swydd staff perthnasol eu diwygio i gynnwys eu cyfrifoldebau o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg.
59. Bydd Bwrdd y Sefydliad yn cynnwys aelod â chyfrifoldeb penodol dros Gymru.
60. Darperir copi o'r Cynllun i bob aelod newydd o staff ac fe'i cynhwysir yn eu hyfforddiant sefydlu.
61. Bydd y rhaglen sefydlu staff yn cyfeirio at Gynllun y Sefydliad.

Targedau ac Amserlen

62. Byddwn yn mabwysiadu targedau ac amserlen ar gyfer gweithredu ein Cynllun Iaith Gymraeg. Gweithredir y mesurau hyn o'r dyddiad y cymeradwyir y Cynllun.

Cwynion ac Awgrymiadau

63. Delir â chwynion ynglŷn â materion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg yn unol â gweithdrefn bresennol NICE ar gyfer cwynion.
64. Bydd y Sefydliad yn annog ac yn croesawu awgrymiadau oddi wrth staff a'r cyhoedd i wella unrhyw agwedd ar ei wasanaeth Cymraeg.
65. Dylai unrhyw un sydd am wneud sylwadau gysylltu â:

Mr Julian Lewis
Welsh Language Officer
National Institute for Clinical Excellence
MidCity Place
71 High Holborn
London
WC1V 6NA

Ffôn: 020 7067 5910
E-bost julian.lewis@nice.nhs.uk

National Institute for Clinical Excellence
MidCity Place, 71 High Holborn, London WC1V 6NA
Gwefan: www.nice.org.uk

ISBN: 1-84257-312-8

Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol.
Ebrill 2003

Cynllunydd: Westhill Communications.

© Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol Ebrill 2003. Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r deunydd hwn at ddibenion addysgol a di-elw o fewn y GIG. Ni chaniateir ei atgynhyrchu gan neu ar gyfer sefydliadau masnachol heb ganiatâd ysgrifenedig penodol y Sefydliad.